TGAU – NEWYDD

3010N10-1

S17-3010N10-1

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

DYDD LLUN, 15 MAI 2017 – PRYNHAWN

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen pinc.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o sut mae pobl yn llwyddo i wneud pethau mewn ffyrdd gwahanol.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
    - Beth sy'n rhwystro'r ddau fardd rhag llwyddo i ddechrau?
    - Beth yw'r cyngor rydyn ni'n ei gael ar sut i lwyddo yn y diwedd?
    - Beth ydyn ni'n ei ddysgu wedi darllen y ddwy gerdd?
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd** arddull/mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Y Sbectol Hud**

Pan fydd yr haul yn cwato'r sêr i gyd,
a'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
pan fydd y lleuad wen ym mhen draw'r byd,
a'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;
neu pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
a phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw –
rho bâr o sbecs dychymyg am dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
a ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
am hyn, fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud.
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
i weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

*Mererid Hopwood*

**Methu a Medru**

Yn y gwersi Maths rwy'n methu,
ond ar gae y gêm rwy'n medru
cadw sgôr a thrafod tacteg,
gweld a mesur onglau rhedeg.

Yn y gwersi iaith rwy'n methu
dweud fy nweud na chwaith sgrifennu,
ond wrth wibio ar gae rygbi,
gall fy nghorff i gyd farddoni.

Yn y gwersi Ffis. rwy'n methu
deall golau'r sêr *a ballu,
ond ar gae rwy'n gweld pob gofod
gan ddisgleirio uwch pob cysgod.

Yn y gwersi Tech. rwy'n methu
llifio, creu nac adeiladu,
ond mewn gêm mae dwylo celfydd
gennyf fi sy'n creu llawenydd.

Felly fi sy'n dysgu'r gwersi
i bawb arall mewn gwers rygbi.
Yn y dosbarth rwyf yn methu,
ond ar gae y gêm rwy'n medru.

*Ceri Wyn Jones*

**a ballu - ac yn y blaen*

**DIWEDD Y PAPUR**